# ❖ ALLTYBLACA ❖

❖ Er mwyn darganfod mannau eraill o ddiddordeb gweler: www.llwybrauffyddceredigion.com ❖ To discover other places of interest see: www.ceredigionfaithtrail.com ❖

Cafodd Capel Undodaidd Alltyblaca ei sefydlu yn 1740-41 dan ddylanwad Jenkin Jones (1700-1742), gweinidog cyntaf Capel Llwynrhydowen. Roedd ei olynydd, David Lloyd (1724-1779), yn ffigwr pwysig yn natblygiad cynnar Undodiaeth yn yr ardal. Yn ôl pob sôn, byddai'n pregethu mor rymus nes byddai modd clywed ei lais ym Mhencarreg, yr ochr arall i ddyffryn Teifi.



Edward Williams
(Iolo Morganwg, 1747-1826)

Mae'r capel hwn wedi bod yn gysylltiedig â rhai o fawrion hanes diwylliannol a chrefyddol Cymru. Roedd y pregethwr enwog, Dafydd Dafis, Castellhywel (1747-1827), yn weinidog yma ar ôl David Lloyd. Roedd Tomos Glyn Cothi (1764-1833), a gododd y Capel Undodaidd cyntaf erioed yng Nghymru, ym Mrechfa yn Sir Gâr, yn ymwelydd cyson ag Alltyblaca. Roedd y gŵr enwog, Iolo Morganwg, hefyd yn un o gefnogwyr brwd yr achos yn y fan hon, a byddai'n teithio'n aml o Sir Forgannwg i fynychu cyfarfodydd.

Cafodd David Lewis Evans (1813-1902) ei fagu yn y capel hwn, ac aeth yn ei flaen i fod yn weinidog Undodaidd. Roedd yn un o sylfaenwyr Yr Ymofynydd, sef cylchgrawn yr Undodiaid. Roedd ei fab, George Eyre Evans (1857-1939), yn hynafiaethydd amlwg ac yn un o haneswyr Undodiaeth. Gwasgarwyd ei lwch yn y fynwent hon.

Roedd D. Jacob Davies (1916-1974) yn weinidog poblogaidd yma am ddeunaw mlynedd. Roedd yn enwog ledled Cymru fel bardd, awdur a beirniad Eisteddfodol. Yn ogystal, "Jacob" oedd y Cymro cyntaf i'w ethol yn Llywydd Cynulliad Cenedlaethol yr Undodiaid ym Mhrydain.

Rhifyn cynnar o gylchgrawn Cymraeg yr Undodiaid, Yr Ymofynydd, a olygwyd gan David Lewis Evans ac a argraffwyd yng Nghaerfyrddin.



YR
YMOFYNYDD
NEU GYFRWNG
GWYBODAETH A RHYDDYMOFYNIAD,
YN CYNNWYS
TRAETHODAU, GOHEBIAETH, &c., AR DESTYNAU CREFYDDOL, BUDDIOL, A GWLADWRIAETHOL,
DAN OLYGIAETH D. L. EVANS,
UN O ATHRAWON COLEG HENADUROL, CAERFYRDDIN.
"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.
Y DRYDEDD GYFRES.
CAERFYRDDIN:
ARGRAFFWYD YN SWYDDFA'R "JOURNAL," GUILDHALL-SQUARE.
1868.

An early edition of the Welsh Unitarian journal Yr Ymofynydd (The Enquirer) edited by David Lewis Evans and printed in Carmarthen.

Roedd J. Gwenogfryn Evans (1852-1930) yn ysgolhaig o fri ym maes llenyddiaeth Gymraeg gynnar. Roedd yn byw yn yr ardal leol pan oedd yn blentyn a chafodd hyfforddiant i fod yn weinidog gyda'r Undodiaid cyn dilyn gyrfa academaidd. Mabwysiadodd yr enw Gwenogfryn fel teyrnged i blwyf Llanwenog.

J. Gwenogfryn Evans (1852-1930) was a great scholar of early Welsh literature. He lived locally as a child and trained for Unitarian ministry before following an academic career. He adopted the name Gwenogfryn as a tribute to the parish of Llanwenog.




Mae Alltyblaca ymhlith 13 o gapeli Undodaidd sydd yn yr ardal a gâi ei galw'n "Y Smotyn Du" gan wrthwynebwyr Undodiaeth. Erbyn hyn, caiff yr enw ei ddefnyddio â chryn falchder gan Undodiaid Ceredigion.

Alltyblaca is one of 13 Unitarian chapels in the area which became known as the Smotyn Du or "Black Spot" to opponents of Unitarianism. This name is used with pride by local Unitarians today.



J. Gwenogfryn Evans
(1852 - 1930)



George Eyre Evans
(1857 - 1939)

Bwthyn Colyton, Dyfnaint, gan Sarah Ann Doidge (1836-1911). Mae'r artist Sarah Ann Doidge wedi'i chladdu yma, yn agos i'w ffrind pennaf, Laura Hirtzel Powell, oedd yn fodryb i George Eyre Evans. Roedd Sarah yn gyfaill i Charles Dickens ac fel yntau yn un o'r Undodiaid. Colyton oedd cartref y Cadben George Eyre Powell, tadcu Eyre Evans.



Llun trwy garedigrwydd Jim Lloyd / Image by courtesy of Jim Lloyd

Colyton Cottage, Devon, by Sarah Ann Doidge (1836-1911). The artist Sarah Ann Doidge is buried here, close to her best friend Laura Hirtzel Powell, who was an aunt of George Eyre Evans. Sarah was a friend of Charles Dickens and, like him, a Unitarian. Colyton was the home of Captain George Eyre Powell, Eyre Evans' grandfather.






"Jacob"

Alltyblaca Unitarian Chapel was founded in 1740-41 under the influence of Jenkin Jones, (1700-1742), the first minister of Llwynrhydowen Chapel. His successor, David Lloyd (1724-1779), was an important figure in the early development of Unitarianism in the area. It is said that his preaching was so powerful that when he delivered sermons here his voice could be heard in Pencarreg, on the other side of the Teifi valley.

This chapel has been associated with some of the great names of Welsh cultural and religious history. The renowned preacher, Dafydd Dafis, Castellhywel (1747-1827), was minister here after David Lloyd. Tomos Glyn Cothi (1764-1833), who built the first Unitarian Chapel in Wales in Brechfa, Carmarthenshire, was a frequent visitor to Alltyblaca. The famous Iolo Morganwg was also a great supporter of the cause here, often travelling from Glamorganshire to attend meetings.

David Lewis Evans (1813-1902), was raised in this chapel and went on to be a Unitarian minister. He was one of the founders of the Unitarian journal Yr Ymofynydd. His son, George Eyre Evans (1857-1939), was an eminent antiquarian and historian of Unitarianism. His ashes were scattered in this graveyard.

D. Jacob Davies (1916-1974), was a popular minister here for 18 years. He was well-known throughout Wales as a poet, writer and Eisteddfod adjudicator. "Jacob" was also the first Welshman to be elected as the President of the Unitarian General Assembly of Britain.


trysor treftadaeth ❖ heritage

CYNNAL Y CARDI
Creating Sustainable Communities

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

LEADER

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ariannwyd y prosiect hwn drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. - This project has received funding through the Rural Development Plan for Wales 2007-2013 which is funded by the Welsh Assembly Government and the European Agricultural Fund for Rural Development